

---

# **Adolygiad o God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad i Deledu, a Chanllawiau ynghylch Hygyrchedd y BBC**

Datganiad ar y cod canllawiau fydd yn berthnasol i'r  
BBC, a newidiadau ansylweddol i God Ofcom ar  
Wasanaethau Mynediad i Deledu

---

**DATGANIAD**

Dyddiad Cyhoeddi: 3 Chwefror 2021

# 1. Trosolwg

Mae Cod Ofcom ar Wasanaethau Mynediad i Deledu yn cynnwys canllawiau y mae'n rhaid i'r BBC eu dilyn o ran darparu gwasanaethau mynediad ar ei sianeli teledu (is-deitlau, sain-ddisgrifiadau, ac iaith arwyddion). Yn unol â Siarter Frenhinol a Chytundeb 2016 y BBC, ac yn dilyn ein hymgyngoriad ym mis Tachwedd 2019, mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniadau ynghylch sut dylai'r BBC wneud ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn hygyrch. Roedd hefyd yn cyflwyno newidiadau i wneud ein Cod ar Wasanaethau Mynediad i Deledu yn fwy eglur i'r holl ddarlledwyr.

## Ein penderfyniad – yn gryno

### Rydym wedi penderfynu cynnal y targedau presennol sy'n cael eu cynnwys yng Nghod Ofcom ar Wasanaethau Mynediad i Deledu ('Cod ar Wasanaethau Mynediad i Deledu') ar gyfer Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y BBC yn y DU

Mae hyn yn golygu y dylai'r BBC barhau i ddarparu isdeitlau ar 100% o'i raglenni, sain-ddisgrifiadau ar 10%, ac iaith arwyddion ar 5%.

Er mwyn sicrhau y bydd y targedau'n parhau i fod yn gymesur, mae'r Cod Mynediad i Deledu yn nodi canllawiau ar sut gallai sianeli gael eu heithrio o'r targedau, neu sut gallent fod yn atebol i ofynion eraill. Bydd y canllawiau cyfredol o ran eithriadau yn parhau i fod yn berthnasol i holl sianeli teledu'r BBC.

### Rydym wedi penderfynu ystyried y canllawiau ar hygyrchedd BBC iPlayer ar wahân

Yn Rhagfyr 2018, fe wnaethom gyflwyno argymhellion i Lywodraeth y DU ar ddrafftio rheoliadau i wella hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni fideo ar-alw ("ODPS") wedi'u rheoleiddio.<sup>1</sup> Ar gais y llywodraeth, mae Ofcom wedi cynnal [ymgyngoriad pellach](#) ar fanylion ychwanegol a bydd yn gwneud rhagor o argymhellion ar gyfer rheoliadau Llywodraeth y DU. Pan fydd y rheoliadau wedi cael eu gwneud a phan fyddant mewn grym, byddant yn cael eu hategu gan god canllawiau Ofcom sy'n nodi sut dylai darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw fodloni'r gofynion ("y Cod Mynediad Ar-alw"). Byddwn yn ymgynghori ar ein canllawiau arfaethedig ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw y BBC (gan gynnwys iPlayer) ar yr un pryd ag y byddwn yn ymgynghori ar y Cod Mynediad Ar-alw

### Rydym wedi penderfynu gwneud rhai newidiadau i gynllun ac i eiriad y Cod Mynediad i Deledu fel ei fod yn haws i'w ddefnyddio i ddarlledwyr ac i ddefnyddwyr y gwasanaeth mynediad

Roedd angen gwneud newidiadau yn dilyn gwahanol ddiwygiadau i'r Cod dros y blynyddoedd ers iddo gael ei gyhoeddi am y tro cyntaf. Fel rhan o'r newidiadau hyn, rydym wedi penderfynu creu dogfen ar wahân ar gyfer ein canllawiau arfer gorau ("Canllawiau ar ddarpariaeth gwasanaethau mynediad i deledu"). Mae hyn yn adlewyrchu sut mae'r canllawiau hyn yn wahanol i weddill y Cod, gan eu bod yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau mynediad.

Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i'r Cod i adlewyrchu diwygiadau diweddar i ddeddfwriaeth.

Dim ond crynodeb syml ar lefel uchel yw'r trosolwg hwn. Mae ein penderfyniadau a'n rhesymeg wedi'u nodi'n llawn yn Adrannau 3 a 4.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

- 1.1 Rydym wedi cyhoeddi'r [Cod Mynediad i Deledu](#) diwygiedig ochr yn ochr â'r datganiad hwn, ac mae'n dod i rym ar unwaith.
- 1.2 Rydym hefyd wedi symud ein canllawiau arfer gorau o Atodiad 4 y Cod i [ddogfen ar wahân](#). Rydym yn bwriadu ymgynghori ynghylch newidiadau i'r canllawiau maes o law.

---

<sup>1</sup>Edrychwch ar ein [Datganiad 2018](#).

1.3 Byddwn hefyd yn ymgynghori ar ganllawiau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw yn y DU y BBC ar wahân maes o law.